Anfonwyd drwy e-bost

13 Ionawr 2022

Annwyl Bennaeth y Ganolfan

Arholiadau 2022 a Cymwys ar gyfer y dyfodol: cydweithio i ail-ddychmygu cymwysterau TGAU

Gobeithiwn eich bod wedi cael amser dros y Nadolig i ymatgyfnerthu, i orffwys a chael seibiant tawel.

Rydym yn cydnabod ymdrechion dygn yr holl weithwyr addysgu proffesiynol yn ystod yr hyn sy'n parhau i fod yn gyfnod heriol i fyd addysg.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi bod yn ymgysylltu'n eang ag arweinwyr yn y sector addysg, a chydag undebau a chyrff cynrychioliadol. Rydym hefyd wedi siarad â dysgwyr drwy ein Grŵp Cynghori i Ddysgwyr. Mae'r pandemig yn dal i gael effaith sylweddol ac mae'r sector addysg yn destun llawer o aflonyddwch.

Arholiadau 2022

Mae penderfyniadau sy'n ymwneud â chymwysterau eleni yn anodd. Credwn fod arholiadau gydag addasiadau a dull o raddio a fwriedir i roi canlyniadau sydd hanner ffordd yn fras rhwng 2019 a 2021 sy'n dal i ddarparu'r dull tecaf o asesu ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae disgwyl i'r holl arholiadau y bwriedir eu cynnal yn 2022 fynd yn eu blaenau.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Mae'r gofynion asesu ar gyfer Tystysgrifau Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, cymwysterau galwedigaethol, TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u haddasu i ystyried yr aflonyddwch parhaus a achosir gan y pandemig.

Y mis hwn, efallai y byddwch yn derbyn ceisiadau gan ymgeiswyr preifat sy'n dymuno cofrestru gyda'ch canolfan ar gyfer arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch, cyn y dyddiadau cau ar gyfer cofrestriadau. Rydym yn eich annog i dderbyn cofrestriadau ymgeiswyr preifat lle bo hynny'n bosibl.

Cynlluniau wrth gefn

Os bydd tarfu sylweddol pellach yn arwain at benderfyniad gan Lywodraeth Cymru i ganslo cyfres arholiadau haf 2022, bydd y trefniadau wrth gefn a amlinellwyd eisoes i ganolfannau yn cael eu gweithredu. Fe wnaethom gyhoeddi ein Canllawiau ar drefniadau asesu wrth gefn ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy ym mis Tachwedd. Bydd ein canllawiau'n cael eu diweddaru gyda gwybodaeth ychwanegol ac mae canllawiau gweithredol manwl CBAC yn barod i'w cyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl unrhyw benderfyniad i weithredu'r trefniadau asesu wrth gefn.

Fel sy'n wir am gymwysterau cyffredinol, os bydd tarfu sylweddol pellach yn arwain at ganslo arholiadau yn haf 2022, bydd trefniadau wrth gefn hefyd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda chyrff dyfarnu ar drefniadau wrth gefn ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, gallwch gael rhagor o wybodaeth am y trefniadau sydd ar waith yma.

Cymwys ar gyfer y dyfodol: cydweithio i ailddychmygu cymwysterau TGAU

Ers cyhoeddi ein penderfyniadau ym mis Hydref ar yr ystod o gymwysterau TGAU yn y dyfodol, rydym wedi dechrau gweithio gyda grŵp eang o ymarferwyr ac arbenigwyr i ailddychmygu a datblygu cymwysterau newydd ar y cyd.

Er mwyn ein helpu i archwilio'r cysylltiadau rhwng cynllunio'r cwricwlwm, ymarfer addysgu ac asesu, rydym wedi sefydlu model ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n cynnwys:

- 26 gweithgor ar lefel pwnc
- 6 rhwydwaith Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh)
- Grŵp cynghori academaidd
- Grŵp cyfeirio rhanddeiliaid cyffredinol

Y tymor hwn, byddwn yn cynnal ymarfer ymgysylltu helaeth â dysgwyr ledled Cymru, o oedran ysgol gynradd ac i fyny. Byddwn yn gofyn i ddysgwyr rannu eu gwybodaeth, eu profiadau a'u disgwyliadau o'r system gymwysterau, gan gynnwys yr hyn y credant y dylid ei asesu a sut.

Rydym yn gweithio gyda Rhwydwaith Cenedlaethol Gweithredu'r Cwricwlwm Llywodraeth Cymru i gynnal sgwrs genedlaethol ar ddyfodol cymwysterau. Cynhelir y sgwrs yn ddiweddarach y tymor hwn.

Hoffem ddiolch i'r rhai sydd eisoes wedi ymuno ag un o'n grwpiau. I'r rhai sy'n dal i fod eisiau cymryd rhan, cysylltwch â ni drwy diwygio@cymwysteraucymru.org.

Cymwysterau Cymraeg

Ddiwedd y mis hwn, rydym yn disgwyl penderfynu ar yr ystod o gymwysterau iaith Gymraeg sydd eu hangen i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad ym mis Chwefror.

Mae cyfleoedd i ymarferwyr pwnc ymuno â'n gweithgor lefel pwnc i helpu i ddatblygu gwaith cynllunio unrhyw gymwysterau iaith Gymraeg newydd. Rydym yn ceisio cynrychiolaeth o ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg. Gallwch ddod o hyd i fanylion am sut i wneud cais ar ein gwefan. Mae'r ceisiadau'n cau ddydd Llun 31 Ionawr.

TGAU Gwyddoniaeth Dwyradd

Os nad ydych wedi'i weld yn barod, rydym wedi llunio rhestr o gwestiynau cyffredin am ein penderfyniad i greu TGAU Gwyddoniaeth Dwyradd newydd. Gallwch ddarllen y rhain ar ein gwefan yn ogystal â'r blog diweddar sy'n amlinellu'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad hwn.

Ail-lunio'r arlwy ehangach o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed

Rydym am wybod pa gymwysterau ddylai fod ar gael ochr yn ochr â'r TGAU newydd i ddiwallu anghenion pob dysgwr rhwng 14 ac 16 oed. Rydym yn edrych ar yr holl gymwysterau sydd ar gael ar hyn o bryd, o lefel mynediad i fyny a phob maes pwnc, gan gynnwys Byd Gwaith, Gallu Ariannol, Datblygu Gyrfaoedd, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Diogelwch Bwyd, Sgiliau Hanfodol, Chwaraeon a Chymorth Cyntaf.

Mae gennym ddau arolwg ar-lein sy'n cael eu cynnal i gasglu eich barn i helpu i lunio'r cymwysterau ehangach a gynigir. Mae un arolwg ar gyfer dysgwyr ac mae'r llall ar gyfer athrawon a rhanddeiliaid eraill. Mae'r ddau arolwg yn fyw tan ddydd Llun 31 Ionawr 2022. Rhannwch y ddolen yma i'r arolwg gyda'ch cydweithwyr, dysgwyr ac mewn unrhyw gylchlythyrau.

Ein Hadroddiad Blynyddol 2021

Cafwyd cyfnod eithriadol arall ym myd addysg y llynedd, gan fod y pandemig parhaus yn golygu bod yn rhaid canslo arholiadau am yr ail flwyddyn yn olynol.

Yn ogystal â gweithio i ddod o hyd i'r ffordd orau o ddyfarnu cymwysterau yn absenoldeb arholiadau rydym wedi cynnal ein hail ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y dyfodol, diwygio cymwysterau ar gyfer y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, cefnogi creu cymwysterau cyfrwng Cymraeg a llawer mwy.

Mae ein hadroddiad blynyddol diweddaraf, a gyhoeddwyd gennym ym mis Rhagfyr y llynedd, yn manylu ar yr holl waith rydym wedi'i wneud dros 12 mis. Gallwch ddarllen yr adroddiad ar ein gwefan.

Rydym yn cydnabod y pwysau parhaus mewn ysgolion a cholegau ac yn croesawu eich holl gefnogaeth. Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio â chi a'ch cydweithwyr yn ystod y misoedd nesaf.

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr